

Hysbysiad i'w Arddangos

Llungopio, Sganio ac Ailddefnyddio Digidol
o dan delerau'r Drwydded Addysg Uwch

1 Awst 2019 - 31 Gorffennaf 2024

Mae gan y sefydliad hwn drwydded gyda'r Asiantaeth Trwyddedu Hawlfraint (CLA) sydd, yn ddarostyngedig i delerau ac amodau, yn caniatáu copio ac ailddefnyddio darnau o destun a delweddau llonydd o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau printiedig, a chyhoeddiadau digidol gan gynnwys rhai gwefannau gwyllo-am-ddim a thanysgrifio. Gallwch weld telerau ac amodau llawn y Drwydded yn cla.co.uk

Beth alla i ei gopïo?

- Mae'r Drwydded yn cwmpasu'r rhan fwyaf o lyfrau, cyfnodolion a chylchgronau printiedig a gyhoeddir yn y DU, a hefyd nifer a gyhoeddwyd dramor a nifer fawr o gyhoeddiadau digidol
- Gallwch wirio a yw eitem wedi'i chwmpasu gan eich Trwydded CLA trwy ddefnyddio'r offeryn chwilio Gwirio Caniatadau, sydd ar gael yn cla.co.uk

Faint alla i ei gopïo?

Gellir copïo hyd at y canlynol o dan y Drwydded:

- Un bennod gyfan o lyfr
- Un erthygl gyfan o rifyn o gyfnodolyn
- Un stori fer, cerdd neu ddrama (heb fod yn fwy na 10 tudalen o hyd) o antholeg
- Un olygfa gyfan o ddrama
- Un papur cyfan o gyfres o drafodion cynhadledd
- Un adroddiad cyfan o achos sengl o gyfrol o weithrediadau barnwrol
- Neu 10% o gyfanswm y cyhoeddiad, p'un bynnag yw'r mwyaf
- Os nad yw cyhoeddiad digidol heb ei drefnu mewn ffordd debyg i eitemau printiedig confensiynol, fe'ch cynghorir i arfer eich barn orau i gopïo darnau rhesymol

All unrhyw un yn y sefydliad gopïo o dan y Drwydded?

- Gall yr holl staff a myfyrwyr wneud llungopiau ar gyfer yr holl ddibenion trwyddedig
- Gall yr holl staff wneud copïau digidol at ddibenion trwyddedig ac eithrio darparu cyrsiau. Mae gofynion ychwanegol yn gymwys i gopïau digidol ar gyfer darparu cyrsiau, felly gwiriwch gyda'ch sefydliad; yn gyffredinol, dim ond staff sydd wedi'u hyfforddi'n benodol yn y rôl hon a ganiateir i wneud copïau digidol ar gyfer darparu cyrsiau

Pwy alla i wneud copïau ar ei gyfer?

Gall copïau gael eu dosbarthu i fyfyrwyr cofrestredig ac aelodau staff. Mae copïau a wneir i fyfyrwyr ar Gwrs Astudio yn ddarostyngedig i amodau penodol a gofynion adrodd.

Gwybodaeth Bellach

Cysylltwch â'ch Cydlynnydd Trwydded CLA (manylion isod) neu gynghorydd hawlfraint sefydliadol. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar ein gwefan hefyd, cla.co.uk

Enw Cydlynnydd Trwydded CLA: _____

Teitl y Swydd: _____

Adran: _____

Rhif Ffôn: _____

E-bost: _____

Mae'r hysbysiad hwn wedi'i ddarparu er arweiniad yn unig. Sylwch, nid yw'n cymryd lle telerau ac amodau'r Drwydded - os bydd gwrthdaro rhwng y ddau, bydd telerau ac amodau'r Drwydded yn drech.